Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deisebau**

# Pwyllgor Deisebau: Cylch gorchwyl

16 Gorffennaf 2021

## Diben

**1.** Mae'r papur yn nodi cylch gorchwyl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Deisebau.

## Argymhelliad

**2.** Gwahoddir y Pwyllgor i nodi ei gylch gorchwyl.

## Cefndir

**3.** Mae rheolau a gweithdrefnau'r Senedd wedi'u nodi yn y Rheolau Sefydlog. Mae Rheol Sefydlog 16.1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd sefydlu pwyllgorau a chanddynt bŵer yn eu cylchoedd gorchwyl i:

> *"(i) archwilio gwariant, trefniadau cyllido, gweinyddiaeth a pholisi'r llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi;*
>
> *(ii) archwilio deddfwriaeth;*
>
> *(iii) ymgymryd â swyddogaethau eraill a bennir yn y Rheolau Sefydlog; a*
>
> *(iv) ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru."*

**4.** Drwy wneud hyn, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod pob un o feysydd cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus cysylltiedig, ynghyd â phob mater sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, yn destun gwaith craffu gan bwyllgorau.

## Cylch gorchwyl y Pwyllgor

**5.** Cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn, fel y cytunodd y Senedd arno ar 23 Mehefin 2021, yw:

> *"[…] i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheol Sefydlog 23."*

**6.** Mae manylion pellach am rolau a chyfrifoldebau ehangach pwyllgorau'r Senedd wedi'u nodi yn adroddiad y Pwyllgor Busnes, sef **Pwyllgorau un y chweched Senedd: Teitlau a chylchoedd gorchwyl**, a osodwyd gerbron y Senedd ar 23 Mehefin 2021.